Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif 1167 (Cy. 204)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2019

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2018 er mwyn cyflwyno mesurau brys i atal *Thaumetopoea processionea* L. (Gwyfyn Ymdeithiwr y Derw) rhag cael ei gyflwyno i Gymru a rhag lledaenu o fewn Cymru.

Mae'n diwygio'r gofynion technegol y mae rhaid eu bodloni wrth ddod â phlanhigion penodol *Quercus* L. i Gymru, neu wrth eu symud o fewn Cymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif 1167 (Cy. 204)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2019

*Gwnaed* *24 Gorffennaf 2019*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *25 Gorffennaf 2019*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 2 a 3(1) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967(**1**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2019 a daw i rym drannoeth y diwrnod y caiff ei osod.

### Diwygio Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2018

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2018(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 21, hepgorer paragraff (7).

(**1**) 1967 p. 8; diwygiwyd adran 2 gan baragraff 8(2)(a) o Atodlen 4 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68), Rhan 1 o'r tabl ym mharagraff 12 o Atodlen 4 i Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979 (p. 2), O.S. 1990/2371 ac O.S. 2011/1043. Diwygiwyd adran 3(1) gan baragraff 8(2)(a) a (b) o Atodlen 4 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac O.S. 2011/1043. Mae'r pwerau a roddir gan adrannau 2 a 3(1) yn cael eu rhoi i "competent authority" ("awdurdod cymwys"), a ddiffinnir yn adran 1(2). Diwygiwyd adran 1(2) gan baragraff 43 o Atodlen 2 i O.S. 2013/755 (Cy. 90). Mae adran 1(2), fel y'i diwygiwyd, yn darparu mai'r awdurdod cymwys ar gyfer Cymru yw Gweinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2018/1064 (Cy. 223), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(3) Yn y tabl yn Rhan C o Atodlen 4, ar ôl eitem 10 mewnosoder—

| | | |
|---|---|---|
| “11. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Quercus* L., ac eithrio *Quercus suber*, a fwriedir ar gyfer eu plannu, y mae eu cylchedd 1.2 m uwchlaw coron y gwreiddiau yn 8 cm neu fwy. | Rhaid i’r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd:<br>(a) mewn mannau cynhyrchu mewn gwledydd lle na wyddys bod *Thaumetopoea processionea* L. yn bresennol;<br>(b) mewn parth gwarchod a gydnabyddir yn barth gwarchod ar gyfer *Thaumetopoea processionea* L. neu mewn ardal sy’n rhydd rhag *Thaumetopoea processionea* L., sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag IPSM Rhif 4; neu<br>(c) mewn safle sydd wedi ei ddiogelu yn ffisegol yn llwyr rhag cyflwyno *Thaumetopoea processionea* L. ac a arolygwyd ar adegau priodol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag *Thaumetopoea processionea* L.” |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Mark Drakeford*
Prif Weinidog Cymru, un o Weinidogion Cymru
*24 Gorffennaf 2019*

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing